Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Y Gronfa Her Coetiroedd Newydd ar gyfer Coedwydd o Safon

Cyflwyniad

Mae coedwydd (*timber*) yn adnodd naturiol adnewyddadwy pwysig, a dyma'r defnydd adeiladu sydd fwyaf cyfeillgar i'r amgylchedd. Drwy reoli coetiroedd yn ofalus, gellir sicrhau bod modd cynhyrchu coedwydd mewn ffordd nad yw'r dinistrio gwerth coetiroedd fel cynefinoedd bywyd gwyllt neu fel lleoedd y gall pobl eu mwynhau. Yn wir, gall tyfu coedwydd gefnogi'r pethau hyn drwy gynhyrchu incwm a all gwrdd â'r gost o reoli coetiroedd a darparu incwm i'r perchennog. Fodd bynnag, ni ellir gwneud hyn oni bai bod y coedwydd o safon uchel, gan nad yw coedwydd gwael yn werth fawr ddim.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y gall coetiroedd a chynhyrchu coed ei chwarae yng Nghymru. Mae ansawdd yn egwyddor allweddol yn Coetiroedd i Gymru, sef Strategaeth y Cynulliad ar gyfer *Coetiroedd a Choed*.

I dyfu coedwydd o safon uchel, mae'n bwysig plannu rhywogaethau o goed sy'n gallu cynhyrchu coedwydd o safon ar safleoedd lle y gall coed dyfu'n dda. Os am lwyddo i dyfu coedwydd o safon uchel, mae angen cynllunio coetiroedd yn ofalus a'u rheoli'n effeithiol, ac felly mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi sefydlu grant arbennig i gefnogi creu coetiroedd newydd sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n gallu tyfu coedwydd o safon mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r Gronfa Her hon yn dilyn y Gronfa Her Rhedyn, a oedd yn rhoi grant i greu coetiroedd cynhyrchiol ar dir rhedynnog, ond sydd bellach wedi dod i ben. Bydd y system newydd yn elwa ar y profiad a gafwyd wrth redeg y gronfa honno, ond mae sawl gwahaniaeth pwysig.

- **Nid yw wedi'i chyfyngu i safleoedd lle ceir rhedyn neu lystyfiant arall.**
- **Mae wedi'i hanelu at safleoedd lle gellir tyfu rhai rhywogaethau o goed yn gyflym.**
- **Mae'r drefn gwneud cais yn llawer symlach nag yn achos yr hen Gronfa Her.**

Beth yw pwrpas y grant?

Pwrpas y grant hwn yw creu coetiroedd newydd cynhyrchiol, a all gynhyrchu coedwydd o safon uchel. Ceisir sicrhau hefyd fod gan y coetiroedd y potensial i gael eu trawsnewid yn ffurf ar orchudd di-dor yn y dyfodol.

Rhaid iddynt fod wedi'u cynllunio'n dda a rhaid i'r **mwyafrif** o'r coed fod yn rhywogaethau sydd â'r potensial i dyfu'n gnwd cryf o goedwydd o safon ar y pridd a'r safle dan sylw. Ceir rhestr o rywogaethau cymwys o gonwydd a choed llydanddail a'u cyfraddau twf yn nhabl 1. Sefydlir y coetiroedd fel rheol drwy blannu coed, a bydd angen stocio cyfartalog o 2500 coesyn yr hectar. I annog creu coetiroedd sy'n ddigon mawr i fod yn hyfyw ar gyfer eu rheoli yn y dyfodol, disgwylir i'r coetiroedd fod yn 5 hectar o leiaf.

Faint o arian sydd ar gael?

Bydd cyfanswm o £1.5 miliwn ar gael dros y tair blynedd nesaf.

Dyrennir hyd at £0.5m ar gyfer ceisiadau i'w gwneud erbyn mis Mawrth 2003.

Dyrennir hyd at £0.5m ar gyfer ceisiadau i'w gwneud rhwng mis Ebrill 2003 a mis Mawrth 2004.

Bydd y gweddill ar gael rhwng mis Ebrill 2004 a mis Mawrth 2005.

Bydd y taliad Her yn £1500 yr hectar yn ychwanegol at daliadau o dan y Cynllun Grant Coetir presennol, grantiau sefydlu (WGS) a thaliadau dan y Cynllun Premiwm Coetir Fferm (FWPS).

Sut y bydd y Gronfa Her hon yn Gweithio?

Mae swm cyfyngedig o arian ar gael ar gyfer y Gronfa Her, a rhoddir y grantiau hyn i'r rhai sy'n cyflwyno ceisiadau sy'n cwrdd â'r meini prawf isod.

Meini prawf ar gyfer ceisiadau

- Rhaid i'r arwynebedd o goetir newydd sydd i gael ei greu fod yng Nghymru neu, yn achos tir fferm, ar ddaliad amaethyddol sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru.
- Rhaid dewis y rhan fwyaf o'r rhywogaethau o'r rhestr o rywogaethau cymwys a rhaid iddynt allu tyfu'n gryf fel y diffinnir yn y dosbarthiadau cynnyrch lleiaf.
- Rhaid i'r safleoedd beidio â bod yn rhai gwlyb neu agored lle mae'r coed yn debygol o gael eu chwythu i lawr yn gynnar.
- Ar safleoedd lle bydd derw neu gastanwydd yn

rhywogaethau pwysig, rhaid i'r math o gracio a elwir yn hollti ('shake') beidio â bod yn broblem.

- NI all y tir fod â gwerth cadwraethol uchel. Ar dir heb ei wella, dylid ceisio cyngor gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.
- Rhaid i'r cais beidio ag amharu ar safleoedd sy'n bwysig am resymau tirweddol neu archaeolegol.

Gofynion o ran maint

- Rhaid i'r coetir(oedd) ym mhob cais fod yn **5 hectar o leiaf**. Cymhwysir y trothwy hwn fel rheol at bob coetir y bwriedir ei blannu. Serch hynny, gall ceisiadau sy'n dod i gyfanswm o 5 hectar o leiaf ond sy'n cynnwys nifer o ardaloedd llai fod yn gymwys ar gyfer grant o'r Gronfa Her os gall yr ymgeisydd ddangos fod gan bob un o'r ardaloedd fynediad digonol a bodd modd eu rheoli'n effeithiol. Ni fydd ceisiadau sy'n llai na 5 hectar yn gymwys oni bai eu bod ar gyfer ehangu coetir cynhyrchiol sy'n bodoli i 5 hectar neu ragor er mwyn creu coetir mwy hyfyw.
- **Arwynebedd mwyaf** coetir newydd sy'n gymwys ar gyfer arian o'r Gronfa Her fydd 50 hectar ac ni fyddai mwy na 50% o ddaliad amaethyddol presennol yn gymwys. Serch hynny, byddai ardaloedd ychwanegol yn parhau'n gymwys ar gyfer y grantiau WGS ac FWPS safonol.

Ymgynghori

Bydd yn rhaid ymgynghori ar bob cais yn unol â phroses ymgynghori arferol y CC. Bydd disgwyl i ymgeiswyr gynnal ymgynghoriadau yn yr achosion canlynol:

- Ceisiadau mewn Parciau Cenedlaethol - rhaid cael llythyr o gefnogaeth gan Awdurdod y Parc.
- Ceisiadau dros 10 hectar y tu allan i Barc Cenedlaethol - rhaid cael llythyr o gefnogaeth gan yr awdurdod lleol.
- Ceisiadau ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig - rhaid cael cefnogaeth ysgrifenedig Cyngor Cefn Gwlad Cymru.
- Ceisiadau ar Henebion Rhestredig - rhaid cael cefnogaeth ysgrifenedig CADW.
- Bydd angen i ymgeiswyr sydd eisoes yn rhan o gynllun amaeth-amgylchedd megis Tir Gofal sicrhau eu bod yn cael cytundeb eu swyddog prosiectau i wneud cais.

Sut mae gwneud cais?

Os ydych am wneud cais, bydd angen i chi ddarllen *Y Gronfa Her Coetiroedd Newydd* ar gyfer Coedwydd o Safon: *Gwybodaeth bellach i ymgeiswyr* sy'n rhoi manylion ychwanegol am y grant. Os nad ydych yn gyfarwydd â'r Cynllun Grant Coetir neu â phlannu coetiroedd, rydym yn eich annog i geisio cymorth rhywun sydd â gwybodaeth a phrofiad yn y maes hwn. Bwriad y grant Cronfa Her yw galluogi ymgeiswyr i geisio cymorth a chyngor proffesiynol.

Rhaid cyflwyno ceisiadau ar ffurflenni WGS/FWPS 1 a 2 a rhaid cynnwys map wedi'i anodi'n glir yn unol â gofynion y *Nodiadau WGS*. Gellir cael ffurflenni cais papur neu electronig a'r Nodiadau eglurhaol drwy wneud cais i swyddfeydd Ardal y CC yng Ngogledd a De Cymru.

Comisiwn Coedwigaeth, Swyddfa Ardal Gogledd Cymru
Clawdd Newydd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 2NL
Ffôn: 01824 750492
Ffacs: 01824 750483
E-bost: con.nw@forestry.gsi.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth, Swyddfa Ardal De Cymru
Llys Cantref Court, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 7AX
Ffôn: 01873 850 060
Ffacs: 01873 850 052
E-bost: con.sw@forestry.gsi.gov.uk

Y Gronfa Her Coetiroedd Newydd ar gyfer Coedwydd o Safon: Gwybodaeth bellach i ymgeiswyr

Y Rheoliadau Asesu Effaith ar yr Amgylchedd (Coedwigaeth)

Asesir pob cais gan y Comisiwn Coedwigaeth er mwyn penderfynu a yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Yn achos ceisiadau mawr neu geisiadau ar safleoedd sensitif, gellir gofyn i'r ymgeisydd baratoi Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd cyn y bydd y CC yn ystyried y prosiect ar gyfer cymorth grant. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gofynnwch am y llyfryn *Asesu Effaith Prosiectau Coedwigaeth ar yr Amgylchedd.*

Nodweddion y safle

Mae nodweddion y pridd a'r safle yn feini prawf pwysig iawn wrth ystyried cymhwyster ar gyfer grant o'r Gronfa Her. Mae'r CC yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth bellach am y safle, megis ffotograffau, neu i ofyn i Ymchwil Coedwigaeth wneud asesiad annibynnol o'r amodau pridd a safle er mwyn penderfynu a yw'n addas ar gyfer y rhywogaethau sy'n cael eu cynnig. Bydd copïau o unrhyw asesiadau a wneir yn cael eu rhoi i'r ymgeisydd.

Cynllun y Coetir

Yn ogystal â chwrdd â'r gofynion safle, bydd angen i bob ymgeisydd gwrdd â safonau cynllunio ac amgylcheddol y CC. Er mai un o amcanion allweddol y coetiroedd hyn fydd tyfu coedwydd o safon uchel, dylid manteisio hefyd ar gyfleoedd i wella'r amgylchedd a gwneud y coetir yn ddeniadol i bobl.

Ar safleoedd sy'n ffinio ar goetiroedd brodorol dylid plannu rhywogaethau sy'n frodorol i'r safle ar hyd y coetir a lle bo modd dylid caniatáu ar gyfer peth aildyfiant naturiol o'r coetir yn yr ardaloedd newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer unrhyw rannau o safle sy'n ffinio ar Goetiroedd Lled-Naturiol Hynafol lle bydd gofynion y *Gronfa Her Ehangu Coetiroedd Hynafol Cymru* ar gyfer coetir newydd yn cael eu cymhwyso. Gall fod angen plannu rhywogaethau brodorol hefyd mewn ardaloedd eraill, megis glannau nentydd, nodweddion mewnol neu ffiniau allanol, am resymau tirweddol a chadwraethol.

Mae **tir agored** yn werthfawr mewn coetiroedd a gall hyd at 20% o'r arwynebedd sy'n gymwys ar gyfer grant gael cymorth grant fel tir agored cynlluniedig (OG). Fodd bynnag, dylid nodi hyn ar fap a dylid lleoli'r llecynnau agored o gwmpas nodweddion pwysig megis clegyrau, cynefinoedd, nodweddion archaeolegol, ffiniau neu lennyrch a all fod yn werthfawr ar gyfer gweithgareddau hamdden.

Dewis o rywogaethau ar gyfer cynhyrchu coedwydd

Rhaid dewis **o leiaf 50%** o'r coed o un neu ragor o'r rhywogaethau a restrir yn nhabl 1, ac er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y grant Her ar y safleoedd a gynigir, dylai'r rhywogaethau a ddewisir allu tyfu o leiaf mor gyflym ag a ddangosir.

Rhywogaeth	Dosbarth Cynnyrch Lleiaf *(Min. Yield Class)*	Rhywogaeth	Dosbarth Cynnyrch Lleiaf *(Min. Yield Class)*
Ffynidwydd Douglas	16	Derw Ddigoes neu Goesog	6
Llarwydd Japan/ Croesryw	12	Ynn	8
Castanwydd	8	Ceirios	8

Tabl 1: Rhywogaethau cymwys o goed a chyfraddau twf lleiaf.

Gall y coed a blennir yn y coetiroedd fod naill ai'n rhywogaethau conifferaidd neu gollddail neu'n gymysgedd o'r ddwy. Gall **hyd at hanner y coed a blennir fod yn rhywogaethau eraill** a dyfir fel cnwd "meithrin" neu i ddarparu amrywiaeth. Bydd y rheol 50% hon yn gymwys fel rheol ar lefel y clwstwr (stand) a bydd cyfyngiad cyffredinol o 30% ar y gyfran o rywogaethau coniferaidd **eraill** y gellir eu plannu mewn unrhyw glwstwr. Gall y CC roi enghreifftiau o gymysgeddau.

Nod y Gronfa Her yw creu clystyrau o rywogaethau cymysg sy'n goedwrol gadarn yn hytrach na chlystyrau o un rhywogaeth, er mwyn sicrhau fod ganddynt y potensial i gael eu trawsnewid yn ffurf ar orchudd di-dor yn y dyfodol. Serch hynny, mae'n bwysig bod y rhywogaethau a blennir mewn cymysgedd yn gydnaws â'i gilydd a bod unrhyw rywogaethau meithrin cyflymach eu twf yn cael eu plannu yn y fath fodd ag i hwyluso rheolaeth (ond heb greu problemau tirwedd megis stribedi ar safleoedd gweladwy). Rhaid i glystyrau o gonwydd gynnwys o leiaf 15% o rywogaethau sy'n frodorol i'r safle er mwyn darparu amrywiaeth a gwella nodweddion coedwrol y clwstwr.

Dwysedd stocio

Bydd y contract yn pennu stocio cyfartalog lleiaf o 2500 o goesynnau cytbell yr hectar yn yr ardaloedd sy'n cael eu plannu ar gyfer coedwydd o safon. Ond bydd angen plannu 3100 o goesynnau yr hectar mewn ardaloedd o dderw neu ffawydd yn unig. Bydd angen 1600 coesyn yr hectar ar gyfer ardaloedd o goetir brodorol newydd sy'n cael eu creu fel **rhan** o'r prosiect - gweler *Cronfa Her Ehangu Coetiroedd Brodorol Cymru.*

Os nad yw digon o goed wedi ymsefydlu erbyn blwyddyn 5, bydd angen plannu rhagor o goed i osgoi ad-dalu rhan neu'r cyfan o'r grantiau a dalwyd ynghynt. Mewn achosion lle y mae rhesymau coedwrol da dros wneud hynny, gall y plannu gael ei wneud mewn camau, er enghraifft, i alluogi cnwd meithrin i ymsefydlu cyn plannu rhywogaethau mwy sensitif. Yn yr achosion hyn, gellir hawlio'r grant Her ar ôl

plannu lleiafswm o 1100 coesyn yr hectar, ond ni ellir hawlio rhandaliad cyntaf y grant plannu hyd nes bod 2500 coesyn yr hectar wedi'u plannu.

Geneteg y stoc plannu

Yn ogystal â dewis rhywogaethau, mae nodweddion geneteg y stoc plannu yn elfen bwysig wrth dyfu coedwydd o safon. Rhoddir cyngor i ymgeiswyr ar goed o darddiad priodol wrth ddewis y rhywogaethau pwysicaf a dylid dilyn hyn.

Dulliau sefydlu

Bydd yn rhaid i'r ceisiadau nodi pa waith a wneir i baratoi'r safle a sefydlu'r coetir. Disgwylir i ymgeiswyr ddilyn yr arfer gorau wrth sefydlu'r coetir, gan gynnwys paratoi'r safle er mwyn datrys problemau megis cywasgiad y pridd a sicrhau na fydd gormod o chwyn yn tyfu ac y byddant yn cael eu cadw dan reolaeth. Bydd y clystyrau cynhyrchiol yn cael eu sefydlu drwy blannu fel rheol, er bod **hadu uniongyrchol** yn dderbyniol hefyd, cyn belled ag y defnyddir dulliau cymwys. Yn yr achos hwn, gellir hawlio grant Her unwaith y bo'r gwaith hadu wedi'i gwblhau, a gellir hawlio'r rhandaliad cyntaf o'r grant plannu pan fydd stoc digonol o'r eginblanhigion wedi cyrraedd uchder o 45cm. Ni fydd hadu uniongyrchol yn gymwys ar gyfer Tâl Disgresiwn.

Bydd ardaloedd o goetiroedd brodorol a grëir drwy aildyfiant naturiol yn cael cymorth grant fel y disgrifir yn y daflen ar *Gronfa Her Ehangu Coetiroedd Brodorol Cymru.*

Ym mhob coetir, bydd yn rhaid cael gwared â choed a llwyni ymledol nad oes eu hangen.

Grantiau sydd ar gael

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn cyfuniad o grantiau. Telir tâl Her o £1500 yr hectar yn ychwanegol at y Cyfraniad Tir Gwell, Grant Plannu ac, os yn briodol, y Cynllun Premiwm Coetir Fferm (FWPS). Telir Grant Plannu WGS ar y cyfraddau am gonwydd neu goed llydanddail gan ddibynnu ar a yw'r mwyafrif o'r coed ym mhob clwstwr neu Uned Reoli yn gonwydd neu'n goed llydanddail. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar y cyfnod y gwneir taliadau FWPS: gweler yr enghreifftiau yn nhabl 2.

Pa bryd y bydd Cronfeydd Her yn cael eu dosbarthu?

Mae swm penodol o arian ar gael yn y Gronfa Her, a bydd yn cael ei ddyrannu i'r rhai cyntaf sy'n gwneud cais dilys. Ni fydd hyn yn seiliedig ar y dyddiad y derbynnir y cais yn gyntaf, ond yn hytrach ar y dyddiad y bydd y cais yn cwrdd â meini prawf y Gronfa Her a gofynion y Comisiwn Coedwigaeth. Byddwn yn ceisio asesu'r ceisiadau yn brydlon ac yn rhoi gwybod i chi o fewn 6 wythnos ar ôl derbyn eich cais os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom.

Cyllido Dwbl

Ni fydd ymgeiswyr yn gallu derbyn taliad Cronfa Her am blannu ardaloedd sy'n derbyn cymorth grant o dan brosiect Cysgodgoed (Shelterwoods) y Comisiwn Coedwigaeth, neu lle derbynnir cymorth grant tuag at gostau ffensio drwy gynlluniau Tir Gofal.

Enghraifft 1 Adran (*compartment*) a blannwyd gyda 75% o goed llydanddail a 25% o rywogaethau conifferaidd yn ôl 2500 o goesynnau yr hectar mewn cymysgedd agos.

Cyfrifiad grant

Plannu 2500 coesyn yr hectar, Tir wedi'i Wella
Cyfanswm arwynebedd y coetir o dan 10 hectar

Blwyddyn 1 hawlio	£1,500 yr hectar o Dâl Her
70% x	£1,350 yr hectar o Grant Plannu Tir Gwell
Ynghyd â	£600 yr hectar o Gyfraniad Tir Gwell
Blwyddyn 1 cyfanswm o	£3,045 yr hectar
Blwyddyn 5 hawlio 30% x	£1,350 yr hectar = £405 yr hectar
Cyfanswm Grantiau WGS =	**£3,450 yr hectar**

Yn ychwanegol at hyn, gwneir taliadau FWPS yn flynyddol am 10 mlynedd.

Enghraifft 2 Adrannau a blannwyd gyda 60% o gonwydd a 40% o goed llydanddail yn ôl 2500 o goesynnau yr hectar mewn cymysgedd agos.

Cyfrifiad grant

Plannu 2500 coesyn yr hectar, Tir wedi'i Wella
Cyfanswm arwynebedd y coetir o dan 10 hectar

Blwyddyn 1 hawlio	£1,500 yr hectar o Dâl Her
70% x	£700 yr hectar o Grant Plannu Coed Conwydd
Ynghyd â	£600 yr hectar o Gyfraniad Tir Gwell
Blwyddyn 1 cyfanswm o	£2590 yr hectar
Blwyddyn 5 hawlio 30% x	£700 yr hectar o Grant Plannu Coed Conwydd
Cyfanswm Grantiau WGS =	**£2,800 yr hectar**

Yn ychwanegol at hyn, gwneir taliadau FWPS yn flynyddol am 15 mlynedd ar gyfer ceisiadau cymwys.

Tabl 2: Cyfrifo cyfraddau grant ar gyfer cymysgeddau o gonwydd a choed llydanddail.

Forestry Commission MDA-Nov 04 © Crown copyright.